WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2005/2006

Dyddiad: Mawrth 2006

**Awduron: Anthony Barrett a Matthew Edwards** **Cyf: 246A2006**

# Strategaeth Archwilio 2005/2006

# **Awdurdod Tân Gogledd Cymru**

| **Strategaeth Amlinellol** | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Ein rolau a'n cyfrifoldebau | 3 |
| Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 3 |
| Ein dull archwilio | 4 |
| Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio - Safon Archwilio Rhyngwladol (Y DU ac Iwerddon) 260 | 6 |
| Ein ffi | 7 |
| Ein tîm | 8 |
| Cyflawni ein gwaith | 9 |


## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn at ddefnydd mewnol y corff a enwir. Paratoir ein hadroddiadau:

- Mewn perthynas ag archwiliad, o dan y ddeddfwriaeth alluogi berthnasol a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu, ac yng nghyd-destun y 'Datganiad o Gyfrifoldebau', a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Mewn perthynas ag arolygiad, yn dilyn gwaith arolygu a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir adroddiadau gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr a benodwyd, ac fe'u cyfeirir at aelodau neu swyddogion yn cynnwys y sawl a ddynodwyd yn swyddogion cyfrifyddu neu swyddogion atebol. Fe'u paratoir at ddefnydd y corff a enwir yn unig, ac nid yw Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilwyr a benodwyd yn atebol i unrhyw gyfarwyddwr/aelod neu swyddog yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

# Cyflwyniad

1 Fel eich archwilwyr allanol, ein nod yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni ein dyletswyddau statudol a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac sy'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Adran 16 o Ddeddf 2004.

2 Rydym wedi paratoi'r strategaeth hon ar sail asesiad o'r risgiau ariannol a gweithredol rydych yn eu hwynebu. Rydym hefyd yn bwriadu cynhyrchu cynllun cyfrifon ariannol a chylch gorchwyl unigol ar gyfer pob darn o waith perfformiad fel y cytunir arnynt.

# Ein rolau a'n cyfrifoldebau

3 Sefydlwyd Swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005 ac mae'n cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff.

4 Mae'n ofynnol i ni archwilio ac ardystio bod y datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, mae hefyd yn ofynnol i ni fodloni ein hunain yr aethpwyd i'r gwariant y mae'r cyfrifon hyn yn gysylltiedig ag ef yn gyfreithlon. Mae hefyd yn ofynnol i ni fodloni ein hunain bod yr awdurdod wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o'i adnoddau.

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

5 Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth tân a diogelwch cymunedol i'r cyhoedd. Mae'n helpu i ddiogelu poblogaeth o tua 670,000 o bobl, dros ardal o tua 2,400 milltir sgwâr.

6 Sefydlwyd yr Awdurdod fel rhan o'r broses ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, a phennir nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ar sail y boblogaeth.

7 Roedd angen bron £27 miliwn o gyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol ar gyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2004/2005. Cynhwyswyd y gwariant gwirioneddol o fewn yr adnoddau a oedd ar gael ac roedd tua £1 filiwn yn llai na'r gyllideb, yn bennaf yn ymwneud â diffoddwyr tân wrth gefn.

8 Cyfrifwyd yr angen cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2005/2006 fel £29.4 miliwn, tua 9.5 y cant yn uwch nag yn 2004/2005. Cydnabu'r Awdurdod nad oedd cynnydd o'r fath yn debygol o fod yn dderbyniol i'r awdurdodau cyfansoddol. Ar ôl ystyried y swm i'w roi o'r neilltu yn 2004/2005, y ffaith nad oedd angen ad-dalu arian trosiannol ac arbedion eraill y gellir eu cyflawni, yn cynnwys arbediad effeithlonrwydd o un y cant, pennwyd y cyfraniad gofynnol gan awdurdodau cyfansoddol ychydig o dan £28 miliwn, sef cynnydd o bedwar y cant ers 2004/2005.

9 Mae'r adroddiad monitro cyllideb diweddaraf, a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr 2005, yn nodi y caiff gwariant ei gynnwys o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae'n bosibl, yn dibynnu ar lefelau gweithgarwch yn y chwarter olaf, y bydd gwarged bach ar gael i ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael yn 2006/2007.

# Ein dull archwilio

10 Cynhyrchir y Strategaeth hon yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) (y DU ac Iwerddon) 300 ac mae'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein gwaith yn unol â'r Cod. Un o brif ofynion y Cod yw ein bod yn dylunio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r risgiau gweithredol ac ariannol a wynebir gennych.

11 Mae'r Cod bellach yn cyfuno ein gwaith i ddau faes penodol, sef:

- archwiliad ariannol; a
- gwaith perfformiad.

## Archwiliad ariannol

12 Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

13 Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi datganiad a wnaed gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o ran eu hadolygiad o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol gyda'i ddatganiadau ariannol.

14 Mae hefyd yn ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad archwilio ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- A yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun teg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Bydd hyn yn darparu sicrwydd bod y datganiadau ariannol:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
  - yn cydymffurfio a'r gofynion statudol â'r gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddu.
- A gyflwynwyd y Datganiad o Reolaeth Fewnol yn unol â'r gofynion perthnasol ac nad yw'n anghyson â'n gwybodaeth o'r Awdurdod.

15 Er mwyn cyhoeddi'r adroddiad a'r farn archwilio, rhaid i ni sicrhau yr eir i'r afael â'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r uchod. Rydym wedi cynnal asesiad risg cychwynnol o'r risgiau, ac fe'i nodir isod.

**Arddangosyn 1: Cyfrifon ariannol**

| Risg cyfrifon ariannol | Gwaith arfaethedig |
|---|---|
| Daeth y **Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau i Gymru** i rym ar 1 Ebrill 2005, ac maent yn gymwys o'r flwyddyn ariannol 2005/2006. Mae'r rheoliadau yn cyflwyno nifer o ofynion newydd, yn cynnwys:<br>• amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynhyrchu'r datganiad o gyfrifon a'i archwilio;<br>• paratoi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol a'i ddatgelu; a'r<br>• gofyniad i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi gan y Prif Weithredwr a'r aelod sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle ei cymeradwywyd. | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i nodi'r materion allweddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.<br>Yn benodol, byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda staff cyllid i ddatblygu rhaglen cau cyfrifon ac archwilio i sicrhau y cwblheir y gwaith cyn y terfynau amser diwygiedig. Byddwn hefyd yn ystyried meysydd o'r cyfrifon lle gellir ymgymryd â gwaith cyn cyflwyno'r datganiadau ariannol drafft. |
| **Archwiliad mewnol** yw elfen allweddol eich trefniadau rheolaeth fewnol gan gynnwys rhoi sicrwydd ynglŷn â gweithredu systemau ariannol allweddol. | Byddwn yn adolygu'r gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwiliad Mewnol yn erbyn safonau CIPFA. |
| Mae **Safonau Archwilio Rhyngwladol newydd** yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar archwilwyr mewn perthynas â'u barn. | Cynllunnir a darperir ein gwaith i fodloni'r gofynion newydd hyn. |

16 Byddwn yn diweddaru'r asesiad risg yn ystod y flwyddyn ac yn cynhyrchu cynllun cyfrifon terfynol manylach i chi cyn ymgymryd ag unrhyw waith ym mis Gorffennaf 2006.

## Archwilio perfformiad

17 Mae ein Cod yn ei gwneud yn ofynnol i ni fodloni ein hunain bod y corff a archwilir wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

18 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau drwy:

- bennu amcanion strategol a gweithredol;
- sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig;
- nodi, gwerthuso a rheoli risgiau gweithredol ac ariannol, a chyfleoedd, gan gynnwys y rheini sy'n codi gymryd rhan mewn partneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractio;
- rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, gan gynnwys trefniadau i ddiogelu ei sefyllfa ariannol;
- monitro perfformiad a'i adolygu; a
- sicrhau y caiff ei faterion ariannol eu rheoli yn unol â safonau priodol o ymddygiad ac atal a chanfod twyll a llygredd.

19 Mae gan yr archwilydd penodedig gyfrifoldeb statudol i fodloni ei hun eich bod wedi gwneud trefniadau priodol yn y maes hwn. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a'r trefniadau rheoli ariannol allweddol y mae'n ofynnol i chi eu rhoi ar waith fel rhan o'ch systemau rheolaeth fewnol.

20 Bydd ein hadolygiad yn defnyddio tystiolaeth a sicrhawyd fel rhan o'n gwaith ar eich datganiadau ariannol yn bennaf. Wrth ddod i gasgliadau, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth berthnasol sydd ar gael, megis canlyniadau'r gwaith perfformiad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y dystiolaeth olaf hon yn cynnwys y gwaith canlynol y byddwn yn ei gyflawni i fynd i'r afael a'r risgiau a nodwyd ar gyfer 2005/2006.

**Arddangosyn 2: Gwaith perfformiad**

| Risg cod perfformiad | Gwaith arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r Awdurdod yn gweithredu **Fframwaith Rheoli Perfformiad (PMF)** newydd yn 2005/2006 wrth baratoi ar gyfer agenda Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. | Adolygu'r broses o weithredu'r PMF newydd. |
| **Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.** | Byddwn yn cwblhau asesiad manwl o drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg i nodi meysydd a allai gael budd o adolygiad annibynnol. |
| Mae'r awdurdodau tân wedi cynhyrchu **Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau** ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu i Raglen Cymru ar gyfer Gwella fod yn gymwys i awdurdodau tân o 1 Ebrill 2007. | Byddwn yn adolygu Rhaglen Perfformiad Gwerth Gorau 2005/2006. Byddwn hefyd yn adolygu'r trefniadau sy'n cael eu sefydlu i weithredu gofynion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. |
| **Casgliad o ran defnydd o adnoddau.** | Byddwn yn adolygu'r gweithdrefnau i asesu a yw'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. |

# Hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu o faterion archwilio - Safon Archwilio Ryngwladol (Y DU ac Iwerddon) 260

21 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (Y DU ac Iwerddon) 260 yn rhoi arweiniad ar hysbysu archwilwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff a archwilir o 'faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r broses o archwilio' datganiadau ariannol er mwyn:

- sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o gwmpas yr archwiliad a phriod gyfrifoldebau'r archwiliwr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- rhannu gwybodaeth i gynorthwyo archwilwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i gyflawni eu priod gyfrifoldebau; a
- darparu arsylwadau adeiladol o'r broses archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

22 Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) am faterion penodol cyn i ni roi barn ar y datganiadau ariannol. Mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn diffinio materion perthnasol fel:

- cydberthnasau a allai ddylanwadu ar annibyniaeth yr archwiliwr;
- gwybodaeth cynllunio archwiliadau; a
- chanfyddiadau'r archwiliad, yn cynnwys safbwyntiau'r archwiliwr ar agweddau ansoddol ar waith cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau'r endid.

23 Ymdrinnir â'r mater cyntaf yn y Strategaeth Archwilio hon. Ymdrinnir â'r ail fater pan fyddwn yn cwblhau'r gwaith cynllunio cyfrifon ariannol manwl, ac mae'r trydydd yn ymwneud â chanfyddiadau'r archwiliad o ddatganiadau ariannol, y cyflwynir adroddiad arnynt yn ystod yr archwiliad, gan ymdrin â phob un o'r agweddau canlynol:

- addasiadau disgwyliedig i adroddiad yr archwiliwr;
- camddatganiadau nas addaswyd;
- gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifyddu a rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad;
- eu safbwyntiau ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol yr endid; a
- materion y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

24 Byddwn yn cyflawni ein dyletswydd i gyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu drwy gyflwyno ein hadroddiadau i'r Awdurdod mewn modd amserol, cyn cwblhau'r archwiliad.

# Ein ffi

25 Pennwyd eich ffi archwilio ar sail y gwaith y bu i ni gytuno arno gyda chi i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd uchod, gan ddefnyddio risgiau cenedlaethol a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'n hasesiad risg lleol. Bydd cynllunio yn broses barhaus, ac efallai y bydd angen newidiadau i'r Strategaeth os bydd unrhyw risgiau newydd sylweddol yn codi. Ni wneir unrhyw newidiadau cyn eu trafod yn gyntaf gyda'r Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thrysorydd yr Awdurdod.

26 Y ffi arfaethedig ar gyfer 2005/2006 yw £47,072 (ynghyd â TAW), a chodir y ffi mewn 12 rhandaliad cyfartal. Mae'r ffi hon yn cynrychioli cynnydd o ddau y cant o gymharu â'r ffi ar gyfer 2004/2005 sy'n unol â'r cynnydd a nodwyd yn y llythyr ffioedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

27 Dadansoddir y ffi rhwng meysydd perthnasol y Cod fel a ganlyn.

**Arddangosyn 3: Ein ffi**

| **Maes y cod** | **Ffi arfaethedig 2004/2005** [(1)] **£** | **Ffi wirioneddol 2004/2005** [(1)] **£** | **Ffi arfaethedig 2005/2006 £** |
|---|---|---|---|
| Cyfrifon | 12,734 | 12,734 | 12,989 |
| Perfformiad (bellach yn cynnwys agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol) | 33,415 | 33,415 | 34,083 |
| **Cyfanswm** | **46,149** | **46,149** | **47,072** |

[(1)] Addaswyd ffi 2004/2005 at ddibenion cymharu â'r strwythur cod newydd

# Ein tîm

**Arddangosyn 4: Ein tîm**

| **Enw** | **Rôl** | **Rhif cyswllt** | **Cyfeiriad E-bost** |
|---|---|---|---|
| Anthony Barrett | Archwilydd a Benodwyd | 01244 525970 | anthony.barrett@wao.gov.uk |
| Matthew Edwards | Rheolwr Aseiniad | 01244 525970 | matthew.edwards@wao.gov.uk |
| Mark Roberts | Arweinydd Tîm | 01244 525970 | mark.roberts@wao.gov.uk |
| Andrew Doughton | Arweinydd TG | 01244 525977 | andrew.doughton@wao.gov.uk |

28 Gallwn gadarnhau bod aelodau ein tîm oll yn annibynnol ar yr Awdurdod Tân a'ch swyddogion. Yn ogystal, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i ni dynnu eich sylw atynt.

# Cyflawni ein gwaith

29 Byddwn yn darparu adroddiadau neu gynnyrch arall fel y cytunwyd i'r Awdurdod ar gyfer pob un o'r meysydd risg a nodwyd uchod. Nodir ein cerrig milltir allweddol isod.

**Arddangosyn 5: Cyflawni ein gwaith**

| Cynnyrch arfaethedig | Dyddiad cychwyn arfaethedig | Cwblhawyd yr adroddiad gyda'r Awdurdod Tân |
|---|---|---|
| Strategaeth archwilio | Chwefror 2006 | Mawrth 2006 |
| Gwaith Cyfrifon ariannol: | | |
| • Cynllun cyfrifon terfynol; | Ebrill 2006 | Gorffennaf 2006 |
| • Memo Cyfrifon Dros Dro; | Ebrill 2006 | Gorffennaf 2006 |
| • Adroddiad Safonau Archwilio Rhyngwladol 260; | Medi 2006 | Medi 2006 |
| • Memo Cyfrifon Terfynol | Medi 2006 | Medi 2006 |
| Gwaith perfformiad | Mawrth 2006 | I'w gadarnhau |
| Llythyr Archwilio Blynyddol | Hydref 2006 | Tachwedd 2006 |

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk